



Ein ffordd fwyaf fforddiadwy o dalu am Drwydded Deledu.



Ateb eich cwestiynau.

Beth yw'r Cynllun Talu Syml?



Mae'r Cynllun Talu Syml yn cynnig ein ffordd fwyaf fforddiadwy o dalu am Drwydded Deledu gyda thaliadau syml am gost isel.



Pa ddewisiadau sy gen i o ran talu?
Llawer. Ac mae pob un **tua £3 yr wythnos**.



Unwaith y cewch eich derbyn ar y cynllun byddwch yn dewis cynllun talu bob pythefnos neu bob mis gan ddibynnu ar yr hyn sy'n addas i chi. Wrth gadw at eich cynllun talu bydd eich taliadau **tua £3 yr wythnos** ar gyfartaledd.

Taliadau awtomatig

Gallwch drefnu Debyd Uniongyrchol a bydd taliadau yn cael eu casglu o'ch cyfrif banc bob mis. Neu gallwch drefnu Awdurdod Talu Parhaol (CPA), a bydd taliadau yn cael eu casglu bob mis neu bob pythefnos o'ch cerdyn debyd neu gredyd.



Debyd Uniongyrchol
• Bob mis



CPA
• Bob mis
• Bob pythefnos

Neu

Taliadau â llaw

Gallwch wneud y taliadau eich hun pryd bynnag sy'n addas i chi, cyn belled â'ch bod yn cadw at y cynllun talu. Talwch gydag arian parod neu gerdyn debyd mewn unrhyw leoliad PayPoint gan ddefnyddio cerdyn y Cynllun Talu Syml. Neu gyda cherdyn credyd neu ddebyd trwy'r wefan, dros y ffôn, neu drwy ddolen Paythru a fydd yn dod trwy SMS.



PayPoint
• Cerdyn y Cynllun Talu Syml



Cerdyn credyd/debyd
• Y we • SMS
• Ffôn

Beth os bydda i'n methu taliad?

Yn wahanol i gynllun talu safonol, os byddwch yn methu taliad misol gyda'r Cynllun Talu Syml, fyddwch chi ddim yn gorfod talu dwbl y mis dilynol i ddal i fyny (edrychwch ar yr enghraifft). Yn hytrach, fe wnawn ni rannu'r taliad a fethoch dros yr holl ddyddiadau talu sy'n weddill. (Ond bydd angen i chi dalu eich rhandaliadau newydd yn llawn, i gadw eich taliadau mor isel â phosib.)

Os rhowch chi rif eich ffôn symudol neu gyfeiriad e-bost wrth gofrestru, gallwn anfon SMS neu e-bost atoch os byddwch yn methu taliad, i'ch helpu i ddod yn ôl i drefn. Byddwn yn anfon cynllun talu newydd atoch. Ond, os byddwch yn methu tri mis o daliadau ar ôl ei gilydd, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y Cynllun Talu Syml.



Trwydded gyntaf

Mis	Cynllun Debyd Uniongyrchol misol presennol	Cynllun Talu Syml Misol
1	£26.50	£13.25
2	Methu taliad	Methu taliad
3	£53.00	£14.62
4	£26.50	£14.57

Os byddwch yn methu taliad, bydd eich taliad nesaf yn llawer is ar ein Cynllun Talu Syml.



Pam ydw i wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r Cynllun Talu Syml?

Mae'r Cynllun Talu Syml gan Drwyddedu Teledu ar gyfer unrhyw un sy'n cael trafferth talu am ei Drwydded Deledu. Pan fyddwch yn ymuno â'r cynllun, gallwch ddechrau o'r newydd, gyda thrwydded a chynllun talu newydd.

A gyda thaliadau o tua **£3 yr wythnos**, dyma'n ffordd fwyaf fforddiadwy o dalu.

Beth ddylwn i ei wneud nawr?

Ffoniwch ni ar **0300 300 1030** neu ewch i **tvl.co.uk/sppfi** i gofrestru ar gyfer y Cynllun Talu Syml a sicrhau eich bod wedi'ch trwyddedu'n gywir gan Drwydded Deledu. Cofiwch ddefnyddio'r cyfeirnod: **DCHAR2**

Pan fyddwch yn ffonio, bydd un o'n cynghorwyr yn gallu eich arwain trwy'r broses ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer y Cynllun Talu Syml, byddwn yn gofyn i chi roi awdurdod i ni ganslo unrhyw drwydded sydd gennych ar hyn o bryd ar gyfer y cyfeiriad .

Mae canolfan alwadau'r Cynllun Talu Syml ar agor: Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:30am a 6:30pm, dydd Sadwrn rhwng 8:30am ac 1:00pm, ac ar gau ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

